

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 13 Gorffennaf 2020

SL(5)568 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020

Gweithdrefn: Cadarnhaol Dros Dro

Mae'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"). Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 303 a 333(2A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990"). Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth benodol mewn cysylltiad â ffioedd ar gyfer cynllunio a cheisiadau cysylltiedig. Mae hyn yn ddarostyngedig i adran 333(3E)-(3F) o Ddeddf 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddrafft o'r Rheoliadau gael ei osod gerbron a'i gymeradwyo trwy benderfyniad y Senedd.

Nod ffioedd ymgeisio yw adennill costau awdurdodau cynllunio lleol wrth ddarparu gwasanaeth rheoli datblygu. Diben y Rheoliadau yw mynd i'r afael â'r diffyg presennol rhwng cost penderfynu ceisiadau a'r incwm a geir am ddarparu'r gwasanaeth hwn. Effaith y Rheoliadau fydd cadw'r strwythur ffioedd cyfredol a sefydledig a nodir yn Rheoliadau 2015. Fodd bynnag, bydd y ffioedd hynny'n cael eu cynyddu, ac eithrio ffioedd am wasanaethau cyn ymgeisio, a fydd yn aros ar y lefelau cyfredol.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 24 Mehefin 2020

Yn dod i rym ar: 24 Awst 2020

